

Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng: Trefniadau ar gyfer Rheoli Galw – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4618A2024

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fel rhan o waith i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020. Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Ynglŷn â'r adroddiad hwn	4
Ffeithiau a ffigurau allweddol	5
Negeseuon allweddol	7
Argymhellion	9
Adroddiad manwl	
Trefniadau cynllunio	11
Cael gafael ar wasanaethau	13
Trefniadau craffu a monitro	28
Atodiadau	
Atodiad 1 – dulliau archwilio	32
Atodiad 2 – meini prawf archwilio	34
Atodiad 3 – ymateb y rheolwyr	38

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2024 o'r trefniadau ar gyfer rheoli galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (y Bwrdd Iechyd). Y gwaith yw ail gam rhaglen o waith sy'n canolbwyntio ar sawl elfen o'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng yng Nghymru. Adroddir ar y cam cyntaf, a archwiliodd cynllunio ar gyfer rhyddhau ac effaith llif cleifion ar ofal brys a gofal mewn argyfwng, ar wahân.
- 2 Mae ein dull yn cydnabod bod y system gofal brys a gofal mewn argyfwng yn gymhleth, lle mae angen i lawer o wahanol sefydliadau gydweithio i ddarparu gofal brys a gofal mewn argyfwng ac i sicrhau bod y system ehangach yn gweithredu yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Llywodraeth Cymru (y Rhaglen Chwe Nod) a lansiwyd yn 2021, yn darparu'r cyd-destun ar gyfer ein gwaith. Ar adeg ein gwaith, roedd y system gofal brys a gofal mewn argyfwng yng Nghymru yn dal i fod o dan bwysau sylweddol.
- 3 Mae ein gwaith wedi archwilio trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng i leihau pwysau diangen ar y system. Fe'i gwnaed i helpu i gyflawni dyletswyddau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o'i adnoddau.
- 4 Gwnaed ein gwaith yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25. Caiff y dulliau a'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith eu crynhoi yn **Atodiadau 1 a 2**.

Ffeithiau a ffigurau allweddol

Gwasanaethau Gofal Sylfaenol	
714	Nifer yr apwyntiadau meddygon teulu brys ac aciwt ¹ a oedd ar gael fesul diwrnod fesul 100,000 o boblogaeth meddygon teulu ym mis Mawrth 2025 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 751. Mae hyn yn ostyngiad o 15.0% ers mis Ebrill 2023.
1158	Nifer y cysylltiadau meddygon teulu y tu allan i oriau arferol y mis fesul 100,000 o boblogaeth meddygon teulu ym mis Gorffennaf 2024 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 973.
463	Nifer y cysylltiadau mewn Canolfan Gofal Sylfaenol Brys, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 433 fesul 100,000 o boblogaeth meddygon teulu ym mis Mawrth 2025.

Gwasanaethau Ambiwylans	
128%	Cynnydd i alwadau ambiwlans Categori A (coch) rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2025 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 172%.
48%	Galwadau ambiwlans Categori A (coch) yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud ym mis Mawrth 2025, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 50% a tharged cenedlaethol o 65%. Mae hyn yn ostyngiad o 18% o fis Ebrill 2019.
18%	Cleifion a drosglwyddwyd o ambiwlans i'r Adran Achosion Brys o fewn 15 munud o gyrraedd ym mis Mawrth 2025, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 14% a tharged cenedlaethol o 100%. Mae hyn yn ostyngiad o 14% o fis Ebrill 2019.

¹ Diffinnir apwyntiadau brys ac aciwt fel apwyntiadau ar gyfer cyflyrau brys neu aciwt sydd wedi digwydd dros y byrdymor.

Gwasanaethau Ysbyty

0.2%	Cynnydd i nifer yr ymgwyflwyniadau yn Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2025, o'i gymharu â gostyngiad Cymru gyfan cyfartalog o 3.7%.
1388	Nifer y bobl a oedd yn aros mwy na 12 awr yn Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2025. Mae hyn yn gynydd o 113% ers mis Ebrill 2019.
05:09	Amser cyfartalog a dreuliwyd yn Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2025, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o bum awr, 27 munud. Mae hyn yn gynydd o awr ers mis Ebrill 2019.
179	Nifer yr ymgwyflwyniadau mewn unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod fesul 100,000 o boblogaeth meddygon teulu ym mis Mawrth 2025 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 278.

Cyllid

£52.1m	Arian ychwanegol a ddyrannwyd i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfnod 2022-25 i adfer gofal a gynlluniwyd a gofal brys a gofal mewn argyfwng y tu hwnt i gyllid craidd y Bwrdd Iechyd.
£5.7m	Arian yn ystod y flwyddyn ychwanegol a dderbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd yn 2023-24, a 2024-25 i gefnogi cyflawniad uchelgeisiau'r Rhaglen Chwe Nod.

Negeseuon allweddol

Casgliad cyffredinol

- 5 Canfuwyd gennym ar y cyfan bod cynllun eglur ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng, ynghyd â throsolwg cryf ar lefelau gweithredu a chorfforaethol. Fodd bynnag, mae perfformiad gwael yn parhau mewn meysydd sy'n cynnwys oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys ac mae angen cryfhau ymgysylltiad staff a chleifion yn ogystal ag adrodd ar sut mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio cyllid ychwanegol.

Canfyddiadau allweddol

Trefniadau cynllunio

- 6 Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ei ddull cynllunio ar gyfer gweithredu'r Rhaglen Chwe Nod i reoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng yn well. Mae cynlluniau yn cyd-fynd â gofynion y Rhaglen Chwe Nod, gan gynnwys ailddatblygu ei uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a'i Uned Asesu Meddygol. Mae cynlluniau yn nodi risgiau allweddol, gan gynnwys y rhai yn ymwneud â heriau gweithlu, ac maent hefyd yn cynnwys camau lliniaru, er bod angen sicrhau bod camau lliniaru yn ddigon cadarn a bod gan risgiau unigolion a nodwyd sy'n gyfrifol amdanynt.
- 7 Mae Cynllun Chwe Nod y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno sut y bydd yn cyfrannu adnoddau ar gyfer ei uchelgeisiau, gan gynnwys y defnydd o gyllid o'r Rhaglen Chwe Nod genedlaethol a chyllid craidd. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau yn nodi'r lefelau staffio gofynnol a cheir diffyg eglurder ynghylch sut y bydd modelau newydd yn cael eu hariannu yn y tymor canolig i'r tymor hwy.

Cael gafael ar wasanaethau

- 8 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng. Er bod rhai trefniadau ar waith i gyfeirio at wasanaethau i'r cyhoedd, nid ydynt yn gyson ac maent ar y we i raddau helaeth, â chwmpas i gryfhau cyfeiriadau ar wefannau meddygon teulu a deintyddol. Er bod gan y Bwrdd Iechyd nifer gymharol uchel o gontractau deintyddol GIG fesul 100,000 o bobl, problemau deintyddol yw cyfran sylweddol o alwadau 111 yn ardal y Bwrdd Iechyd.
- 9 Ceir ymgysylltiad anghyson â staff ar ddiweddariadau i newidiadau a darpariaeth gwasanaethau. Er bod y Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu'n effeithiol â'r grŵp gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol, ceir tensiwn rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd o ran pwy allai fod ar fai am y ffaith fod cleifion yn dod i wasanaethau yn amhriodol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n gryf o ran ei allu i gyfeirio cleifion 999 at wasanaethau eraill dros y ffôn heb fod angen eu cludo i'r ysbyty, er bod y cyfraddau atgyfeirio i wasanaethau deintyddol yn uwch nag mewn ardaloedd byrddau iechyd eraill. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adrodd ar heriau yn ymwneud â'i

wasanaethau deintyddol brys ac wedi ymrwymo i fonitro galw a chapasiti ar gyfer yr angen hwn. Fodd bynnag, mae i ba raddau y gall parafeddygon gyfeirio cleifion at wasanaethau amgen ar ôl cyrraedd y safle yn is nag mewn rhannau eraill o Gymru.

- 10 Mae gan y Bwrdd lechyd gyfraddau cymharol uchel o fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu'r cynllun mân anhwylderau ond mae ganddo lai o wasanaethau ychwanegol, fel oriau estynedig, ar gael. Mae data yn awgrymu bod y Bwrdd lechyd yn gwneud defnydd da o'i Ganolfannau Gofal Sylfaenol Brys ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn awyddus i weld y gwasanaeth hwn yn cael ei ehangu ymhellach. Fodd bynnag, y gyfradd o ymgyflwyniadau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod fesul 100,000 o boblogaeth meddygon teulu yn y Bwrdd lechyd yw'r isaf yng Nghymru ac mae atgyfeiriadau o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn eithriadol o isel, sy'n adlewyrchu angen i gydymffurfio â meini prawf atgyfeirio cenedlaethol. Mae data yn dangos bod y Bwrdd lechyd wedi cynyddu mynediad a thriniaeth gan yr Uned Mân Anafiadau yn sylweddol ac wedi gwneud gwelliannau i amseroedd aros yn ei Adran Achosion Brys yn y misoedd diwethaf. Er gwaethaf hyn, mae angen i'r Bwrdd lechyd wneud mwy o wella amseroedd trosglwyddo ambiwlansys sy'n parhau i arwain at golled oriau sylweddol a niwed i gleifion.

Trefniadau craffu a monitro

- 11 Mae'r Bwrdd lechyd yn gwneud defnydd o ddangosfwrdd data i ddangos yr effaith y mae modelau gwasanaeth newydd yn ei chael ar alw am ofal brys a gofal mewn argyfwng. Er bod mecanweithiau i gasglu adborth gan gleifion sy'n derbyn gofal brys a gofal mewn argyfwng, nid yw'n eglur pa wasanaethau y mae'r adborth yn ymwneud â nhw, yr amllder y gofynnir amdano a sut mae'n cael ei ddefnyddio i hysbysu newidiadau i wasanaethau. Er i ni ganfod tystiolaeth o sesiynau briffio staff ym maes gofal brys a gofal mewn argyfwng, ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth gennym fod y Bwrdd lechyd yn casglu adborth nac yn cymryd rhan mewn trafodaeth dwy ffordd i nodi cyfleoedd i gryfhau gwasanaethau ymhellach.
- 12 Ceir monitro a throsolwg rheolaidd o berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng ar lefel pwyllgorau a'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae'r trosolwg o'r defnydd o ddryniadau ariannol ychwanegol ar gyfer gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn wael.

Argymhellion

13 Mae **Arddangosyn 1** yn rhoi manylion yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith. Caiff ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion ei grynhoi yn **Atodiad 3**.

Arddangosyn 1: argymhellion

Argymhellion	
Rheoli risg mewn cynlluniau	
A1	I gryfhau gwaith rheoli risg, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan yr holl risgiau a nodir mewn cynlluniau gofal brys a gofal mewn argyfwng unigolion sy'n gyfrifol amdanynt a bod camau lliniaru yn cael eu hadolygu'n rheolaidd (Arddangosyn 2).
Ariannu'r Rhaglen Chwe Nod	
A2	I gefnogi'r ddarpariaeth barhaus o fentrau yn gysylltiedig â'r Chwe Nod, mae angen i'r Bwrdd Iechyd egluro a chadarnhau'r trefniadau ariannu ar gyfer cynlluniau y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Dylai cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod hefyd nodi unrhyw anghenion ariannu y tu hwnt i'r dyraniad blynyddol presennol (Arddangosyn 2).
Cynllun cyfathrebu	
A3	Yn ei gynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai'r Bwrdd Iechyd egluro pa gamau y bydd yn eu cymryd i gyfathrebu sut y bydd gwasanaethau yn cael eu defnyddio gan staff a'r cyhoedd. Dylai hyn sicrhau bod negeseuon cyson ac eglur ar gyfer cael gafael ar ofal brys a gofal mewn argyfwng priodol a lleihau pwysau ar y system (Paragraff 21).
Cyfeirio cleifion at y gwasanaethau cywir	
A4	I roi mwy o eglurder i gleifion, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod meddygfeydd teulu a phractisau deintyddol yn darparu gwybodaeth eglur a hygyrch am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng ar eu gwefannau (Paragraff 26)
Monitro cydymffurfiad â chanllawiau atgyfeirio Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod cenedlaethol	

Argymhellion

- A5 I gael sicrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn dilyn y canllawiau atgyfeirio Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod cenedlaethol, dylai gynnal archwiliad o'i ddata Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn erbyn y meini prawf ac adrodd ar y canlyniadau i bwyllgor neu fforwm priodol (**Paragraff 49**).

Gwella adborth staff a chleifion

- A6 I sicrhau bod cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael eu hysbysu gan brofiad cleifion, dylai'r Bwrdd Iechyd ddangos yn eglur o fewn y naratif sut y mae wedi ystyried adborth cleifion (**Arddangosyn 9**).
- A7 I wella'r ddealltwriaeth o sut mae gwasanaethau yn gweithio, ac i nodi gwendidau neu ddysgu posibl o newidiadau diweddar, dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno mecanweithiau rheolaidd ar gyfer adborth staff ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Dylai hyn gynnwys adborth gan bartneriaid allweddol gan gynnwys staff gofal sylfaenol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (**Arddangosyn 9**).

Adrodd ar wario cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng

- A8 I gynyddu tryloywder a chryfhau sicrwydd bod arian a ddyrennir i ofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael ei wario'n ddoeth, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys gwybodaeth am ei ddefnydd o gyllid ychwanegol mewn adroddiadau cyllid rheolaidd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Dylai hyn gynnwys defnyddio arian y Chwe Nod, Ymhellach, Yn Gyflymach a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (**Arddangosyn 10**).

Adroddiad manwl

Trefniadau cynllunio

- 14

Mae'r adran hon yn ystyried pa un a oes gan y Bwrdd lechyd gynlluniau cadarn ar waith i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth bod cynlluniau:

 - yn cael eu hysbysu gan wybodaeth berthnasol a chyfredol;
 - yn nodi ac yn ceisio mynd i'r afael â risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng;
 - yn cyd-fynd â gofynion y Rhaglen Chwe Nod, ac yn nodi'n eglur sut y bydd llwybrau clinigol amgen yn gweithio; ac
 - yn nodi'r lefelau presennol a gofynnol o adnoddau a staffio i gyflawni'r uchelgeisiau a fwriedir.
- 15

Fe wnaethom adolygu Cynllun Cyflawni Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng 2024-25 y Bwrdd lechyd (y Cynllun Chwe Nod) a'i Gynllun Adfer a Chynaliadwyedd 2022-25. Ar gyfer 2024-25, fe wnaeth y Bwrdd lechyd adolygu a sicrhau bod y rhaglen gofal brys a gofal mewn argyfwng a'r Cynllun Chwe Nod yn cyd-fynd â chynllun adfer y Bwrdd lechyd, ei ymateb uwchgyfeirio yn ogystal â'i gynlluniau brys ac mewn argyfwng fel bod neges gyson ar draws y cwbl.
- 16

Canfuwyd gennym fod cynlluniau eglur ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng, wedi'u cefnogi gan fuddsoddiad o'r Rhaglen Chwe Nod a chan y Bwrdd lechyd. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau yn nodi'r lefelau staffio gofynnol a cheir diffyg eglurder ynghylch sut y bydd modelau newydd yn cael eu hariannu yn y tymor canolig i'r tymor hwy.
- 17

Caiff y canfyddiadau sydd wedi ein harwain at y casgliad hwn eu crynhoi yn **Arddangosyn 2**.

Arddangosyn 2: y dull o gynlluniau gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng

Cwestiwn archwilio	Ydyn/ Nac ydyn/ Yn rhannol	Canfyddiadau
Mae cynlluniau wedi'u hysbysu gan wybodaeth berthnasol a chyfredol?	Ydyn	Mae cynlluniau'r Bwrdd lechyd wedi'u hysbysu gan wybodaeth berthnasol a chyfredol, gan gynnwys galw a chapasiti a data rhagolygon. Mae'r cynlluniau hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau gweinidogol a lleol allweddol, gan gynnwys cryfhau

Cwestiwn archwilio	Ydyn/ Nac ydyn/ Yn rhannol	Canfyddiadau
		gwydnwch gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng a gwella canlyniadau, â phwyslais penodol ar wella gwasanaethau eiddilwch.
Mae cynlluniau yn nodi ac yn ceisio mynd i'r afael â risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng?	Yn rhannol	Mae'r Cynllun Chwe Nod yn nodi risgiau i brosiectau unigol, fel cyllid wedi'i brif-ffrydio ac adnoddau staff sydd ar gael. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys risgiau ehangach, fel methu â gwella'r gwelliannau arfaethedig i wasanaethau a mynd i'r afael â swyddi gwag i fwrw ymlaen â'r rhaglen. Fodd bynnag, roedd y dyddiadau adolygu ar gyfer y risgiau a adolygwyd gennym wedi mynd heibio ers cryn amser ac nid oedd ganddynt unigolion cyfrifol am risgiau wedi'u nodi (Argymhelliad 1). Adlewyrchir risgiau hefyd yng Nghofrestr Risg Gorfforaethol y Bwrdd Iechyd. Y risg o fynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yw'r un o risgiau mwyaf y Bwrdd Iechyd â sgôr o 25 a dywedodd asesiad y Bwrdd Iechyd o'i gamau lliniaru eu bod yn rhoi 'sicrwydd cyfyngedig' i'r Bwrdd yn ystod 2024.
Mae cynlluniau yn cyd-fynd â gofynion y Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, ac yn nodi'n eglur sut y bydd y llwybrau clinigol amgen yn gweithio?	Ydyn	Mae'r Cynllun Chwe Nod yn nodi manylion mentrau presennol ac yn y dyfodol i gefnogi darpariaeth y Rhaglen Chwe Nod. O dan bob un o'r Chwe Nod, mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu manylion ynghylch ei bedair rhaglen. Mae ail raglen y Cynllun Chwe Nod yn cynnwys datblygu strategaeth eiddilwch, ailddatblygu ei uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a'i Uned Asesu Meddygol yn ogystal â blaengynllunio ar gyfer gwasanaeth Damweiniau ac Achosion Brys iechyd meddwl.
Mae cynlluniau yn nodi'r lefelau presennol a gofynnol o	Yn rhannol	Dyrannwyd £2.7 miliwn i'r Bwrdd Iechyd gan Lywodraeth Cymru yn 24-25 i gynorthwyo darpariaeth y Rhaglen Chwe Nod. Nododd Cynllun Chwe Nod y Bwrdd Iechyd sut y byddai'r dyraniad hwn yn cael ei

Cwestiwn archwilio	Ydyn/ Nac ydyn/ Yn rhannol	Canfyddiadau
adnoddau a staffio i gyflawni'r uchelgeisiau a fwriedir?		wario ochr yn ochr â chyfraniad craidd y Bwrdd lechyd i sicrhau cyllideb â chyfanswm o £4.9 miliwn. Mae gan bob rhaglen wariant a ragwelir wedi'i nodi. Mae'r Cynllun Chwe Nod yn darparu rhywfaint o wybodaeth yn ymwneud â dyraniadau cyllid ac arian a wariwyd ar staffio. Fodd bynnag, gellid darparu rhagor o fanylion am y lefelau staffio a'r adnoddau sydd eu hangen y tu hwnt i fis Mawrth 2025 ar gyfer y mentrau a ddisgrifir (Argymhelliad 2).

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Cael gafael ar wasanaethau

- 18 Mae'r adran hon yn ystyried pa un a oes gan y Bwrdd lechyd drefniadau cadarn ar waith i annog a galluogi pobl i gael gafael ar y gofal cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, a pha un a yw'r rhain yn gweithio. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:
- gyfeirio cleifion yn effeithiol at y gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n diwallu eu hanghenion orau;
 - staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i gleifion, a gwybodaeth amdanynt; a
 - newidiadau i'r ddarpariaeth o wasanaethau yn arwain at welliannau i fynediad at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.
- 19 Canfuwyd gennym, er gwaethaf dulliau i annog a galluogi mynediad at y gofal cywir, y tro cyntaf, fod rhwystrau'n parhau i ymwybyddiaeth gyhoeddus, ymgysylltiad staff a phrosesau atgyfeirio sy'n cyfyngu effaith newidiadau i reoli galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng.

Cyfeirio'r cyhoedd at wasanaethau

- 20 Canfuwyd gennym fod dulliau i gyfeirio'r cyhoedd at wasanaethau ar waith ond nad ydynt yn hygyrch i'r rhai nad ydynt yn llythrennog yn ddigidol, ac mae adborth yn awgrymu bod mwy o waith i'w wneud i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau.

Cynlluniau cyfathrebu

- 21 Nid oes gan y Bwrdd lechyd gynllun cyfathrebu i amlinellu sut mae'n sicrhau ymwybyddiaeth staff a chleifion o sut a phryd i gael gafael ar ofal brys a gofal mewn argyfwng. Er mai 'cydgysylltu, cyfeirio ac opsiynau yn hytrach na derbyn i'r ysbyty' yw enw ail raglen Cynllun Chwe Nod y Bwrdd lechyd, nid oedd y cynllun yn disgrifio unrhyw weithgarwch i gyfathrebu neu i gyfeirio cleifion at y gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng cywir (**Argymhelliad 3**).
- 22 Mae'r Bwrdd lechyd yn defnyddio ei gyfryngau cymdeithasol a thudalennau ei wefan i gyfeirio cleifion at wasanaethau a'u hysbysu am amseroedd aros maith posibl yn ei brif Adran Achosion Brys yn Ysbyty Treforys. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd rhan mewn ymgyrchoedd cenedlaethol blaenorol, fel Dewis Doeth, yn ogystal â hyrwyddo defnydd o'r gwasanaeth 111 ar ôl ei gyflwyniad cenedlaethol. Gwahoddir y tîm cyfathrebu i gyfarfodydd adrodd ar y sefyllfa dyddiol i helpu i reoli'r neges i'r cyhoedd trwy gyfryngau. Fodd bynnag, nid yw negeseuon cyfryngau cymdeithasol ac ar y wefan yn hygyrch i'r rhai na ydynt yn llythrennog yn ddigidol neu'n dewis peidio â defnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Gwybodaeth i'r cyhoedd

- 23 Efallai mai eu meddyg teulu yw'r pwynt cyswllt cyntaf i'r mwyafrif o gleifion ag angen brys, ac mae ein hadolygiad o'r data sydd ar gael yn awgrymu bod meddygfeydd teulu'r Bwrdd Iechyd wedi darparu lefel rhyw fymryn yn is o apwyntiadau brys ac aciwt rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025 (770 y dydd) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan (777 y dydd) fesul 100,000 y pen o boblogaeth meddygon teulu. Fodd bynnag, mae'r lefel wedi bod yn gostwng yn ystod y cyfnod hwnnw, gan leihau o 938 o apwyntiadau y dydd ym mis Ebrill 2024 i 714 ym mis Mawrth 2025. Hefyd, mae'r apwyntiadau hyn ar gael yn ystod y dydd yn unig, ac yn ystod cyfnodau o alw mawr a'r tu allan i oriau arferol, mae angen i gleifion gael eu cyfeirio at wasanaethau amgen a allai fod mewn sefyllfa well i ddiwallu eu hanghenion gofal brys.
- 24 Canfu ein hadolygiad o wefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd wybodaeth dda am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Roedd y wefan yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â gwasanaethau y tu allan i oriau arferol meddygon teulu/gwasanaeth ffôn 111, Unedau Mân Anafiadau, gwasanaethau gofal sylfaenol a'r ddarpariaeth Iechyd Meddwl '111, Pwysu 2'. Mae'r wefan yn annog cleifion i gael gafael ar gymorth drwy wasanaethau amgen, gan bwysleisio y dylai cleifion fynd i Adran Achosion Brys dim ond os oes ganddynt symptomau difrifol penodol. Mae gwefan y Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau addas a'u horiau agor.
- 25 Ystyriwyd gennym hefyd pa wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd trwy feddygfeydd teulu a phractisau deintyddol i asesu a oedd cyfeirio eglur ar gyfer cleifion os oes ganddynt anghenion gofal brys neu ofal mewn argyfwng y tu allan i oriau arferol. Mae **Arddangosyn 3** yn cyflwyno canlyniadau'r gwaith hwn, a adolygodd wefannau a negeseuon ffôn y tu allan i oriau arferol 11 o feddygfeydd teulu a 15 o bractisau deintyddol².

² Roedd y sampl yn cynnwys cymysgedd o bractisau deintyddol GIG a phreifat.

Arddangosyn 3: canlyniadau'r adolygiad o wybodaeth meddygfeydd teulu a phractisau deintyddol (Hydref 2024)

Dangosydd	Y Bwrdd lechyd hwn	Sefyllfa Cymru gyfan
% y gwefannau meddygfeydd teulu â chyfeirio eglur	72.7	56.8
% y negeseuon peiriant ateb meddygfeydd teulu â chyfeirio eglur	90.9	89.5
% y gwefannau practisau deintyddol â chyfeirio eglur	53.3	36.7
% y negeseuon peiriant ateb practisau deintyddol â chyfeirio eglur	80.0	86.7

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 26

Roedd pob meddygfa deulu a samplwyd gennym yn y Bwrdd lechyd ac eithrio un yn darparu cyfeirio eglur at wasanaethau gofal brys neu ofal mewn argyfwng y tu allan i oriau arferol ar eu llinellau ffôn, sydd rhyw fymryn yn uwch na'r sefyllfa Cymru gyfan. Roedd cyfeirio trwy wefannau meddygfeydd teulu a deintyddol yn y Bwrdd lechyd hefyd yn cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa Cymru gyfan. Fodd bynnag, roedd cyfeirio eglur trwy linellau ffôn practisau deintyddol yn is na'r sefyllfa Cymru gyfan, er ei fod yn dal yn gymharol uchel. Mae'r canlyniadau yn dangos bod y Bwrdd lechyd wedi cyflwyno rhai negeseuon effeithiol ar linellau ffôn ei feddygfeydd teulu, ond ceir lle i gryfhau cyfeirio mwy eglur ar wefannau meddygfeydd teulu a deintyddol (**Argymhelliad 4**).
- 27

Ledled Cymru, mae rhwng 450,000 a 500,000 o bobl yn defnyddio'r wefan 111 bob mis. O ran galwadau 111, mae gan y Bwrdd lechyd gyfradd uwch o alwadau 111 fesul pen o boblogaeth meddygon teulu o'i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan (2,404 o alwadau a 2,203 o alwadau, yn eu trefn) ac roedd galwadau 111 a wnaed gan drigolion y Bwrdd lechyd yn 13.3% o'r holl alwadau ym mis Chwefror 2024. Nodir y pum prif reswm am alwadau yn **Arddangosyn 4**.

Arddangosyn 4: y pum prif reswm am alw 111 (Chwefror 2024)³

Y Bwrdd Iechyd hwn	% o'r holl alwadau	Sefyllfa Cymru gyfan	% o'r holl alwadau
Problemau deintyddol	6.7	Problemau deintyddol	4.1
Poen yn yr abdomen	2.9	Poen yn yr abdomen	2.4
Poen yn y frest	2.0	Poen yn y frest	1.6
Peswch	1.8	Peswch	1.4
Brech	1.2	Brech	1.0

Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans

28 Y rheswm mwyaf am alw'r gwasanaeth 111 yn ardal y Bwrdd Iechyd yw ar gyfer problemau deintyddol, a'r ganran yw'r drydedd uchaf o'r holl fyrddau Iechyd yng Nghymru. Mae gwefan y Bwrdd Iechyd yn cynnwys gwybodaeth i gleifion am ei wasanaeth deintyddol brys, o dan yr adran 'Gofal cymunedol a sylfaenol', gan gynnwys cyfeirio eglur at ddarparwr deintyddol y claf ei hun yn y lle cyntaf os oes ganddo un. Os nad oes gan y claf ddeintydd rheolaidd neu broblem ddeintyddol frys y tu allan i oriau gwaith, fe'i cyfeirir at alw 111 i gael y cyngor a'r cymorth i ddod o hyd i apwyntiad deintyddol brys. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys cyngor ar reoli problemau deintyddol, cwestiynau cyffredin a chyngor cyffredinol ar sut i ofalu am ddannedd a deintgig.

Ymwybyddiaeth cleifion

- 29 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd feganweithiau rheolaidd ar waith ar hyn o bryd i asesu pa un a yw gwybodaeth gyhoeddus yn newid ymddygiad y cyhoedd o ran y ffordd y maent yn cael gafael ar ofal brys a gofal mewn argyfwng. Yn ystod ein hadolygiad, mae adborth gan rai a gyfwelwyd n awgrymu y gallai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, â safbwyntiau bod y system yn gymhleth ac y gall fod yn ddryslyd i gleifion ei llywio.
- 30 Hefyd, nododd adborth gan Llais⁴ nad oes gan gleifion ddealltwriaeth dda o ba wasanaethau y gall fferyllfeydd eu cynnig a phryd. Cododd Llais bryderon hefyd am y ffaith fod llawer o gyfathrebu gan y Bwrdd Iechyd drwy ei wefan a'i gyfryngau

³ Oherwydd problemau parhaus gyda'r system 111 newydd a roddwyd ar waith ym mis Ebrill 2024, ni adroddwyd unrhyw ddata ar y gwasanaeth 111 ers mis Chwefror 2024.

⁴ Corff statudol annibynnol yw Llais, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryfach i bobl Cymru yn y broses o gynllunio a darparu eu gwasanaethau Iechyd a gofal cymdeithasol.

cymdeithasol a allai achosi problemau o ran cyfathrebu yn effeithiol â phobl nad ydynt yn llythrennog yn ddigidol.

Ymwybyddiaeth staff a'r gallu i gyfeirio

- 31 Canfuwyd gennym, er bod y Bwrdd lechyd yn ymgysylltu â staff ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, ceir lle o hyd i wella cyfrifoldeb ar y cyd ar draws grwpiau staff, ac i sicrhau bod gan staff amrywiaeth ddigonol o wasanaethau amgen i gyfeirio cleifion atynt.

Hybu ymwybyddiaeth staff o wasanaethau

- 32 Mae'r Bwrdd lechyd yn ymgysylltu â staff trwy sesiynau briffio ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Er enghraifft, cynhaliodd y Bwrdd lechyd sesiwn briffio staff ar yr uned eiddilwch aciwt newydd. Mae arweinwyr uwch gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng y Bwrdd lechyd yn cyfarfod yn rheolaidd ag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a'r Grŵp Gwasanaeth Sylfaenol a Chymunedol i drafod gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Er gwaethaf hyn, clywsom gan staff nad yw dysgu bob amser yn cael ei grynhoi a'i rannu.
- 33 Fodd bynnag, dynododd rhai o'n cyfweiliadau bod lefel dda o ddiwylliant neilltuo bai yn gysylltiedig â chleifion sy'n cyflwyno yn yr Adran Achosion Brys, â gwasanaethau yn cael bai am beidio ag arallgyfeirio cleifion i ffwrdd yn gynharach yn nhaith y claf trwy wasanaethau amgen. Mae'n ymddangos bod tensiynau yn arbennig rhwng staff gofal sylfaenol ac eilaidd ar y mater hwn. Gall y tensiynau hyn gael effaith negyddol ar ymgysylltu a chydweithio wedyn i fynd i'r afael â phroblemau cyffredin o ran darparu gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n brofiad cadarnhaol i gleifion.

Cyfeirio at wasanaethau

- 34 Mae gan y Bwrdd lechyd y gyfradd uchaf yn gyson o gleifion sy'n ffonio 999 ac yn derbyn cyngor 'ymgynggori a chloi' dros y ffôn neu gyfeirio, o'i gymharu â'r cyfartaledd Cymru gyfan (22.4% o'i gymharu â 15.1% ym mis Ebrill 2024). O'r galwadau hynny, mae'r gyfran a gyfeirir at wasanaethau amgen yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan (75.7% o'i gymharu â 72.9%) a'r ail uchaf yng Nghymru.
- 35 Mae'r gwasanaeth 111 hefyd yn cyfeirio cleifion at wasanaethau amgen i ddiwallu eu hanghenion gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae **Arddangosyn 5** yn nodi i ba raddau y mae'r gwasanaeth 111 wedi gallu cyfeirio cleifion oddi wrth yr Adran Achosion Brys.

Arddangosyn 5: atgyfeirio i wasanaethau eraill (Chwefror 2024)

Dangosydd	Y Bwrdd lechyd hwn	Sefyllfa Cymru gyfan
% y galwadau 111 a atgyfeiriwyd i feddyg teulu y tu allan i oriau arferol	39.1	41.0
% y galwadau 111 a atgyfeiriwyd i broffesiwn ieuchyd arall	2.1	2.4
% y galwadau 111 a atgyfeiriwyd i wasanaethau deintyddol	14.5	9.9

Ffynhonnell: Dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans

- 36 Yn ystod 2023-24, roedd y gyfradd yr atgyfeiriodd staff 111 gleifion i wasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau arferol y Bwrdd lechyd ac at weithwyr ieuchyd proffesiynol eraill arni yn gyffredinol gyson â sefyllfa Cymru gyfan. Fodd bynnag, mae staff 111 wedi atgyfeirio cyfrannau uwch o alwadau i ofal deintyddol brys yn gyson yn ardal y Bwrdd lechyd na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae hyn yn cyd-fynd â'r data sydd wedi'u cynnwys yn **Arddangosyn 4** ac yn dangos angen i sicrhau mynediad digonol at lwybrau deintyddol ar draws y Bwrdd lechyd.
- 37 Mae gan y Bwrdd lechyd nifer uwch o gontractau deintyddol y GIG⁵ fesul 100,000 o'r boblogaeth, a'r ail uchaf yng Nghymru o'i gymharu â'r ffigur Cymru gyfan (17.7 a 15.6 yn eu trefn). Yn unol â gweddill Cymru, mae sefyllfa'r Bwrdd lechyd wedi dirywio o 2022-23. Nid oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd ar faint o bobl sydd ar restrau aros i dderbyn gwasanaethau deintyddol yng Nghymru.
- 38 Amlygodd adroddiad i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd lechyd ym mis Mawrth 2025 heriau yn ymwneud â llai o weithgarwch deintyddol, problemau recriwtio a chadw mewn deintyddfeydd, cyllid anghylchol a mwy o alw (320 o

⁵ [StatsCymru, data ar gontractau a phractisau deintyddol, 2023-24](#)

gleifion bob wythnos) na'r capasiti sydd ar gael ar gyfer gofal deintyddol brys (82 o apwyntiadau bob wythnos). Rhoddodd yr adroddiad fanylion rai o gamau arfaethedig y Bwrdd Iechyd i liniaru'r heriau hyn, gan gynnwys annog mwy o ddefnydd o systemau digidol, annog mwy o dderbyniad o gleifion brys newydd a monitro galw.

- 39 Yn ystod 2023-24, trosglwyddwyd 4.9% o alwadau 999 Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i'r gwasanaeth 111, sy'n dynodi eu bod yn llai brys. Fodd bynnag, o'r galwadau hynny, dychwelyd ychydig yn llai na thraean, 29.7%, o 111 yn ôl i'r llinell ffôn 999 i gael eu hystyried ar gyfer anfon ambiwlans. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, a oedd yn 27.6% ar gyfer yr un cyfnod. Mae'r gyfradd uwch hon yn awgrymu bod lle i gynyddu'r llwybrau priodol sydd ar gael ar gyfer galwadau sy'n frys ond lle nad oes bygythiad i fywyd ar draws y Bwrdd Iechyd.
- 40 Mae i ba raddau y gall criwiau ambiwlans 'weld a thrin' cleifion ar y safle yn ardal y Bwrdd Iechyd yn is na chyfartaledd Cymru gyfan (12.8% o'i gymharu â 14.3% ym mis Mawrth 2025). Roedd canran y cleifion a atgyfeiriwyd i wasanaethau gofal amgen hefyd yn is na sefyllfa Cymru gyfan ym mis Chwefror 2025 (9.1.% o'i gymharu ag 11.9%).
- 41 Yn ystod ein cyfweiliadau, clywsom am lwyddiant Uwch Ymarferwyr Parafeddygol o ran arallgyfeirio cleifion oddi wrth yr Adran Achosion Brys. Mae Uwch Ymarferwyr Parafeddygol yn darparu gwasanaethau brysbennu i gleifion drwy adolygu'r galwadau 999 sy'n disgwyl i ambiwlans gael ei anfon, gan ddarparu triniaeth yn y gymuned, ac atgyfeirio cleifion ymlaen i wasanaethau priodol. Fodd bynnag, mae Uwch Ymarferwyr Parafeddygol wedi'u cyfyngu gan y mathau o wasanaethau cymunedol y gallant atgyfeirio iddynt a'u hamseroedd aros a'u capasiti. Dywedodd rhai o'r staff ambiwlans i ni siarad â nhw y byddent yn elwa o gael mynediad at gyfres ehangach o lwybrau, ac yn enwedig dull i gael gafael ar wybodaeth cleifion yn uniongyrchol drwy eu meddyg teulu.

Gwasanaethau i helpu i reoli galw

- 42 Canfuwyd gennym fod mynediad rhesymol at wasanaethau i reoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng, er bod lle o hyd i gynyddu'r gwasanaethau fferyllol cymunedol uwch yn ogystal â chynyddu mynediad at Ofal Argyfwng yr Un Diwrnod a sicrhau cydymffurfiaid â meini prawf atgyfeirio cenedlaethol.

Gwasanaethau fferylliaeth cymunedol

- 43 Ar gyfer 2023-24, roedd gan y Bwrdd Iechyd lefel o fferyllfeydd cymunedol fesul 100,000 o boblogaeth meddygon teulu a oedd yn uwch na lefel Cymru gyfan (22.6 a 20.9 yn eu trefn). Roedd pob un o fferyllfeydd cymunedol y Bwrdd Iechyd wedi cytuno i ddarparu'r cynllun anhwylderau cyffredin yn 2023-24. Mae'r cynllun hwn

yn caniatáu i fferyllwyr asesu a thrin rhestr gyffredin o fân anhwylderau⁶. Os bydd angen gwrthfotigau, byddai angen i gleifion gael eu hatgyfeirio i'w meddyg teulu. Dywedodd rhai pobl a gyfwelwyd gennym, er bod fferyllfeydd wedi ymuno â'r cynllun anhwylderau cyffredin, roedd yn ddibynnol ar ba un a oedd fferyllwyr penodol yn gweithio, felly roedd yn anodd i gleifion wybod pryd y gallai gwasanaethau fod ar gael.

- 44 Roedd nifer yr ymgynghoriadau anhwylderau cyffredin fesul 100,000 o boblogaeth meddygon teulu ar gyfer 2023-24 rhyw fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan (10,494 o'i gymharu â 10,472). Yr anhwylderau mwyaf cyffredin a adroddwyd oedd llid yr amrannau, dolur gwddf, clefyd y gwair a dermatitis.
- 45 I ategu'r cynllun, mae rhai fferyllfeydd cymunedol hefyd wedi cytuno i ddarparu gwasanaethau uwch ychwanegol, sy'n cynyddu gallu fferyllwyr cymunedol ymhellach i ymateb i fân anhwylderau. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaeth trin a phrofi dolur gwddf, a'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol. Mae'r ddau wasanaeth yn galluogi'r fferyllfeydd cymunedol i ragnodi gwrthfotigau. Hefyd, gall fferyllwyr cymunedol hefyd ddarparu'r gwasanaeth oriau ychwanegol, sy'n caniatáu iddynt ymestyn eu horiau agor a darparu gwasanaeth ar wyliau banc. Nodir y niferoedd sydd wedi manteisio ar y rhain yn **Arddangosyn 6**.

Arddangosyn 6: niferoedd sydd wedi manteisio ar wasanaethau uwch ychwanegol mewn fferyllfeydd cymunedol (2023-24)

Dangosydd	Y Bwrdd Iechyd hwn	Sefyllfa Cymru gyfan
% y fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu gwasanaeth trin a phrofi dolur gwddf	70	79
% y fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol	20	28
% y fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu gwasanaethau oriau ychwanegol	8	16

Ffynhonnell: StatsCymru

- 46 Mae canran y fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu'r gwasanaethau ychwanegol yn is na chyfartaledd Cymru gyfan ac yn rhai o'r isaf yng Nghymru. Er bod canran y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth rhagnodi annibynnol yn isel, mae niferoedd wedi cynyddu yn 2023-24 o'i chymharu â'r flwyddyn cynt, pan roedd 15% o fferyllfeydd cymunedol yn cynnig y gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, gostyngodd canran y fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu oriau ychwanegol o 15% yn 2022-23 i 8% yn 2023-24, sy'n ddarpariaeth wael o wasanaeth. Mae'r ffaith nad oes llawer o

⁶ Y cynllun anhwylderau cyffredin, 2021.

wasanaethau oriau ychwanegol ar gael yn debygol o gynyddu pwysau ar wasanaethau y tu allan i oriau arferol eraill.

Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a Chanolfannau Gofal Sylfaenol Brys

- 47 Yn unol ag uchelgeisiau'r Rhaglen Chwe Nod, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn Ysbyty Treforys. Egwyddor yr uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yw darparu asesiadau a thriniaeth yr un diwrnod, heb fod angen i'r claf gael ei dderbyn i'r ysbyty dros nos. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sefydlu dwy Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys yn ysbytai Treforys a Chastell-nedd Port Talbot, sydd ar agor rhwng 10am a 6.30pm ddydd Llun i ddydd Gwener.
- 48 Mae **Arddangosyn 7** yn nodi i ba raddau y mae gwasanaethau model Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a Chanolfan Gofal Sylfaenol Brys yn cael eu defnyddio ar draws y Bwrdd Iechyd.

Arddangosyn 7: cysylltiadau fesul 100,000 o boblogaeth meddygon teulu mewn Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys ac unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod (Mawrth 2025)

Dangosydd	Y Bwrdd Iechyd hwn	Sefyllfa Cymru gyfan
Cyfanswm yr ymglyfwyniadau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod fesul 100,000 o boblogaeth meddygon teulu	178.5	278.2
Cyfanswm y cysylltiadau Canolfan Gofal Sylfaenol Brys fesul 100,000 o boblogaeth meddygon teulu	462.7	446.7

Ffynhonnell: Dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru

- 49 Mae cyfradd yr ymglyfwyniadau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod fesul 100,000 o boblogaeth meddygon teulu yn y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu yn ystod y cyfnod dwy flynedd diwethaf, o lefel isaf o 120.2 ym mis Rhagfyr 2023 i lefel uchaf o 178.5 ym mis Mawrth 2025. Er gwaethaf hyn, y gyfradd yw'r isaf yng Nghymru o hyd. Gall clinigwyr gofal sylfaenol ac eilaidd atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol i'r uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod. Gall staff Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (111 a 999) hefyd atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol i'r uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, ond mae data yn dangos bod llai na 0.2% o alw Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cael ei atgyfeirio i'r uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod bob mis. Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bolisi Cymru gyfan ar atgyfeirio uniongyrchol gan barafeddygon i ofal argyfwng yr un diwrnod, gan nodi'r gwahanol ddisgwyliadau o staff Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r Bwrdd Iechyd i gefnogi atgyfeiriadau effeithiol i unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a phwysleisio pwysigrwydd mynediad. Fodd bynnag, clywsom yn ystod yn eich gwaith maes bod

rhai criwiau ambiwlans wedi cael eu gwrthod dro ar ôl tro gan yr uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod gan fod yr uned yn llawn. O ganlyniad, mae staff Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn amharod i geisio defnyddio'r gwasanaeth eto. Mae'r data a'r dystiolaeth hyn yn awgrymu angen brys i ymrwymo ar y cyd a chydymffurfio â'r meini prawf atgyfeirio cenedlaethol (**Argymhelliad 5**).

- 50 Er ei bod yn ymddangos bod capasiti cyfyngedig uned Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod y Bwrdd lechyd yn effeithio ar ei allu i leddfu pwysau ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, mae data yn awgrymu bod gan y cohortau o gleifion sy'n cael eu hanfon drwy'r uned anghenion priodol ar gyfer y gwasanaeth. Mae arferion da yn dynodi y dylai fod cyfraddau uchel o ryddhau o unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn briodol. O fewn y Bwrdd lechyd, mae canran y cleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod wedi aros yn gymharol sefydlog, â chyfradd gyfartalog o 90.5% rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025. Dyma'r ail gyfradd uchaf yng Nghymru ac mae wedi cynyddu'n sylweddol ers mis Mawrth 2024. Mae'r ffaith fod llai na 10% o gleifion Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn cael eu derbyn i'r ysbyty yn dynodi defnydd effeithiol o'r Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod.
- 51 Sefydlodd y Bwrdd lechyd raglen gwella Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn 2021 ac ehangwyd hon yn rhan o Ail-ddylunio Gwasanaethau Meddygol Aciwt ym mis Mai 2022. Fodd bynnag, ar adeg yr archwiliad, roedd y Bwrdd lechyd yn cynllunio adolygiad pellach o'r gwasanaeth hwn oherwydd cydnabyddiaeth nad yw'r model presennol yn gweithio fel y bwriadwyd. Roedd problemau a nodwyd yn cynnwys capasiti cyfyngedig a staff yn adrodd pryderon yn ymwneud â phrydlondeb canlyniadau profion dilynol a diagnosteg.
- 52 Mae gan y Bwrdd lechyd yr ail gyfradd uchaf o gysylltiadau Canolfan Gofal Sylfaenol Brys fesul 100,000 o boblogaeth meddygon teulu yng Nghymru. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Bwrdd lechyd yn parhau i weithio tuag at gyflwyno gwasanaeth gofal brys 24/7 ac mae cyfradd y cysylltiadau fesul 100,000 o boblogaeth meddygon teulu wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod dwy flynedd diwethaf. Mae cyfraddau presennol yn awgrymu bod y Bwrdd lechyd yn gwneud defnydd da o'r gwasanaeth hwn.
- 53 Gall y gwasanaeth Canolfan Gofal Sylfaenol Brys dderbyn atgyfeiriadau gan feddygon teulu, yr Adran Achosion Brys, Unedau Mân Anafiadau, gwasanaethau y tu allan i oriau arferol meddygon teulu, 111 ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Mae data ar gyfer 2024-25 yn dangos bod y mwyafrif o atgyfeiriadau i mewn i'r gwasanaeth yn dod gan feddygon teulu (90% ym mis Mawrth 2025), ag ychydig iawn yn dod drwy ffynonellau eraill. Er gwaethaf hyn, roedd rhai o'r staff gofal sylfaenol i ni siarad â nhw eisiau gweld y model Canolfan Gofal Sylfaenol Brys yn cael ei ehangu ymhellach i gynyddu capasiti. Mynegodd staff rwystredigaeth hefyd bod Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys yn llenwi yn gynnar yn y dydd neu fod y pellter daearyddol rhwng y feddygfa deulu a lleoliad y Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys yn golygu bod cleifion yn anhapus i gael eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth.

Effaith newidiadau gwasanaeth ar berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng

- 54 Canfuwyd gennym ei bod yn ymddangos bod newidiadau gwasanaeth diweddar yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau trosglwyddo ac amseroedd aros yn yr Adran Achosion Brys, ond mae angen mynd i'r afael ag achosion o oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys a'i lleihau o hyd.

Perfformiad ambiwlansys

- 55 Ers y pandemig, mae galwadau 999 i'r gwasanaeth ambiwlans ar draws y Bwrdd Iechyd wedi parhau i gynyddu ac maent bellach wedi mynd y tu hwnt i'r lefel a welwyd gan y gwasanaeth cyn y pandemig, â chyfartaledd o 721 o alwadau coch bob mis rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, o'i gymharu â chyfartaledd o 359 o alwadau rhwng Ebrill 2019 a Chwefror 2020⁷. Er mai galwadau oren yw'r mwyafrif o alwadau 999 o hyd mae eu nifer wedi gostwng ers y pandemig â chyfartaledd o 2,805 o alwadau y mis rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025 (o'i gymharu â chyfartaledd o 3,315 rhwng Ebrill 2019 a Chwefror 2020).
- 56 Er gwaethaf y cynnydd cyffredinol i'r galw am ambiwlansys, mae'r gyfradd y mae criwiau ambiwlans yn cludo cleifion yn y Bwrdd Iechyd i'r ysbyty wedi lleihau ers lefel cyn y pandemig o 66.3% (Ebrill 2019 – Chwefror 2020), i 58.9% (Ebrill 2024 – Mawrth 2025). Roedd gan y Bwrdd Iechyd y gyfradd gludo gyfartalog isaf y mis o bob bwrdd iechyd ar gyfer 2024-25. Mae'r duedd hon o wella yn dynodi bod rhywfaint o'r gwaith i osgoi cludo yn cael effaith. Mae **Arddangosyn 8** yn nodi'r cyrchfan ar gyfer pob trosglwyddiad.

⁷ Ni ellir cymharu Mawrth 2020 yn uniongyrchol â Mawrth 2025 oherwydd pandemig COVID-19.

Arddangosyn 8: cyrchfan cludo fel cyfran o gyfanswm y cludiadau (Ebrill 2024 – Mawrth 2025)

Dangosydd	Y Bwrdd lechyd hwn	Tuedd	Sefyllfa Cymru gyfan
% y cleifion a gludwyd i adrannau achosion brys mawr	96.7		88.8
% y cleifion a gludwyd i unedau mân anafiadau	2.2		5.8
% y cleifion a gludwyd i unedau derbyniadau meddygol aciwt mawr	0.2		3.1
% y cleifion a gludwyd i unedau eraill e.e. uned iechyd meddwl neu famolaeth	0.9		1.8

Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwylans

- 57 Mae criwiau ambiwlans yn cludo cyfran sylweddol uwch o gleifion i Adran Achosion Brys y Bwrdd Iechyd na chyfartaledd Cymru gyfan, a’r gyfradd gyfartalog yn ystod 2024-25 oedd yr ail uchaf yng Nghymru. Gallai hyn adlewyrchu’r ffaith mai dim ond 2.2% o gleifion a gludwyd i Uned Mân Anafiadau’r Bwrdd Iechyd, sy’n is na chyfartaledd Cymru gyfan. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd hefyd gludo llawer llai o gleifion i’w Unedau Asesu Meddygol, â dim ond 0.2% o gleifion yn cael eu cludo o’i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 3.1%.
- 58 Mae gan y Bwrdd Iechyd un Uned Mân Anafiadau, wedi’i lleoli yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Ym mis Awst 2023, fe wnaeth yr uned leihau ei horiau agor oherwydd pwysau staffio parhaus, o 7:30am tan 11pm i 8am tan 9pm, saith diwrnod yr wythnos. Er y bwriadwyd i’r oriau byrrach barhau am gyfnod o naw mis yn wreiddiol, nid yw’r Bwrdd Iechyd wedi gallu ailddedrau’r oriau estynedig eto. Mae ymglyfwyniadau yn yr Uned Mân Anafiadau trwy gerdded i mewn yn bennaf, er y gall meddygon teulu atgyfeirio cleifion i’r gwasanaeth ac mae gan y Bwrdd Iechyd drefniant gyda’r gwasanaeth 111 i ddarparu slotiau amser i alwyr ag anghenion priodol. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi datgan nad yw cleifion sy’n cael eu cludo mewn ambiwlans yn briodol ar gyfer yr Uned Mân Anafiadau yn gyffredinol.
- 59 Roedd cludiadau i’r ysbyty yn dilyn galwad 999 o gartref gofal yn 59.9% ym mis Mawrth 2024, sy’n is na chyfartaledd Cymru gyfan o 62.1%. Gallai’r ffigur is na’r cyfartaledd hwn fod oherwydd gwaith y prosiect Ymateb Cyflym i Gartrefi Gofal. Yn rhan o’r prosiect hwn, mae’r Bwrdd Iechyd yn darparu cymorth cofleidol i bump cartref gofal â chyfraddau cludo uchel yn rhanbarth Bae Abertawe.
- 60 Mae data yn dangos bod oedi cyn trosglwyddo i ambiwlansys ar draws y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod ar lefelau annerbyniol o uchel. Dim ond 16.1% oedd canran y trosglwyddiadau o ambiwlansys a gwblhawyd o fewn 15 munud rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, o’i gymharu â tharged cenedlaethol o 100%. Fodd bynnag, dyma’r ail berfformiad gorau yng Nghymru, o’i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan o

15.5%. Ac eithrio amrywiadau tymhorol, mae perfformiad trosglwyddo wedi gwaethygu ers mis Hydref 2023. Mae perfformiad trosglwyddo yn arwain at nifer fawr o oriau wedi'u colli oherwydd oedi cyn trosglwyddo. Collodd y Bwrdd lechyd gyfartaledd o 2,944 awr bob mis rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025.

- 61 Fe wnaeth adolygiad clinigol a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwylans⁸ ddarganfod bod y gyfradd y mae niwed yn digwydd i gleifion yn cynyddu pan fydd eu trosglwyddiadau yn cymryd dros awr i'w cyflawni. Nododd yr adolygiad hwn bod y tebygolrwydd y byddai claf yn dioddef niwed difrifol neu barhaol yn 7% ar gyfer trosglwyddiadau yn cymryd rhwng awr ac awr a hanner, 10% ar gyfer trosglwyddiadau yn cymryd rhwng dwy a thair awr a 27% ar gyfer trosglwyddiadau yn cymryd dros bedair awr i'w cyflawni. Dangosodd data o fis Mawrth 2025 bod 64.9% (896) o drosglwyddiadau yn y Bwrdd lechyd wedi cymryd dros awr i'w cyflawni, a bod 34.5% (477) o drosglwyddiadau wedi cymryd dros bedair awr i'w cyflawni.
- 62 Mae oedi cyn trosglwyddo yn amharu ar allu staff ambiwlans i ymateb i alwadau brys eraill yn y gymuned. Mae amseroedd ymateb ambiwlansys yn dal i fod yn heriol ac yn is na thargedau perfformiad, er eu bod rhyw fymryn yn well na chyfartaledd Cymru gyfan, neu yr un fath. 47.5% oedd canran gyfartalog y galwadau coch yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 48.7% ac yn erbyn targed o 65%. Ar gyfartaledd, tair awr a 18 munud oedd yr amser ymateb i alwadau oren rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, yn codi i 13 awr a 44 munud i'r rhai a arhosodd yr hiraf. Mae perfformiad wedi dirywio dros y 12 mis diwethaf.
- 63 Ers ein harchwiliad, mae'r Bwrdd lechyd wedi rhoi'r rhaglen Profion Newid ar waith. Mae hon wedi treialu gwelliannau penodol gyda'r nod o wella'r profiad a chanlyniadau i gleifion ag anghenion gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae hyn wedi cynnwys darparu gwasanaeth Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod 7 diwrnod a rhyddhau wedi'i arwain gan feini prawf. Dangosodd bapur a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025 effaith gadarnhaol y rhaglen. Mae'r Bwrdd lechyd yn adrodd bod gwelliannau a wnaed yn arwain at lai o oedi cyn trosglwyddo, yn ogystal â llai o farwolaethau ac amseroedd aros byrrach i gleifion yn yr Adran Achosion Brys.

Perfformiad yr Adran Achosion Brys

- 64 Fe wnaeth y Bwrdd lechyd ddatgan pum digwyddiad parhad busnes⁹ yn ystod 2024. Cyfathrebwyd digwyddiadau parhad busnes i'r cyhoedd trwy gyfryngau cymdeithasol a gwefan y Bwrdd lechyd, â'r wefan yn darparu cyngor i'r cyhoedd ar sut i gael gafael ar wasanaethau gofynnol tra'n osgoi rhoi pwysau ychwanegol ar yr

⁸ *'Delayed hospital handovers: Impact assessment of patient harm'* Y Gymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwylans, Tachwedd 2021.

⁹ Caiff Digwyddiadau Parhad Busnes eu sbarduno o dan amgylchiadau eithriadol yn unig yn gyffredinol pan fo nifer eithriadol o uchel o gleifion brys difrifol wael yn aros am welyau

Adran Achosion Brys. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau parhad busnes wedi cael eu datgan hyd yma yn ystod 2025, sy'n dynodi bod rhai o'r newidiadau i wasanaethau ac ymdrechion i wella llif cleifion wrth y drws ffrynt yn cael effaith gadarnhaol o ran cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i reoli galw.

- 65 O fewn y Bwrdd Iechyd, mae'r gyfradd ymgylwyniadau mewn Adran Achosion Brys fesul 100,000 o boblogaeth meddygon teulu wedi aros yn sefydlog yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac eithrio yn ystod cyfnodau o bwysau tymhorol. Roedd y gyfradd ryw fymryn yn is na'r cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer 2024-25 (1,757 a 1,988 yn eu trefn). Ar y llaw arall, mae'r gyfradd ymgylwyniadau yn Uned Mân Anafiadau'r Bwrdd Iechyd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd Cymru gyfan (1,137 a 773 yn eu trefn).
- 66 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweld gwelliannau i amseroedd aros yn yr Adran Achosion Brys yn ystod y misoedd diwethaf. 75.3% oedd canran y cleifion a oedd yn treulio llai na phedair awr yn yr Adran Achosion Brys rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 68.9%. 89.8% oedd canran y cleifion a oedd yn treulio llai na 12 awr yn yr Adran Achosion Brys rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 89.1%. Ar ôl asesu, mae'r gyfradd dderbyn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ar 27.0% rhwng Mawrth 2024 a Chwefror 2025 (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 22.3%).
- 67 Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd Arolygiaeth Iechyd Cymru adroddiad ar yr heriau parhaus yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Treforys¹⁰. Canfu'r adroddiad bod yr Adran Achosion Brys dros ei chapasiti yn gyson, â chleifion yn cael eu trin mewn coridorau a mannau ymchwydd nad ydynt wedi'u cynllunio ar gyfer gofal clinigol, â rhai cleifion yn wynebu amseroedd aros hir iawn am asesiad. Roedd yr adroddiad yn gadarnhaol am newidiadau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi eu gwneud i arallgyfeirio cleifion, gan gynnwys sefydlu'r Uned Asesu Pobl Hŷn a llwybrau derbyn uniongyrchol i alluogi parafeddygon a meddygon teulu i osgoi'r Adran Achosion Brys ar gyfer cleifion penodol. Amlygodd yr adroddiad sawl maes yr oedd angen eu gwella ar frys, a datblygodd y Bwrdd Iechyd gamau mewn ymateb.

¹⁰ Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd), Yr Adran Achosion Brys, Ysbyty Treforys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025

Trefniadau craffu a monitro

- 68 Mae'r adran hon yn ystyried pa un a yw'r Bwrdd lechyd yn gwneud digon i fonitro perfformiad ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, ac yn rhoi gwersi a ddysgwyd ar waith i wella gwasanaethau ymhellach. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o:
- drefniadau ar gyfer monitro effaith llwybrau clinigol amgen; a
 - throsolwg effeithiol o graffu ar gyflawniad cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng.
- 69 Canfuwyd gennym fod trefniadau i fonitro a goruchwyllo gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn rhesymol. Fodd bynnag, gallai'r Bwrdd lechyd wneud mwy i ddefnyddio adborth cleifion a staff i gryfhau ei gynlluniau strategol ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng a dangos sut y mae wedi gwario cyllid ychwanegol.

Monitro effaith

- 70 Canfuwyd gennym fod dangosfwrdd data yn darparu gwybodaeth weithredol am alw, ond nid yw'n eglur sut mae'r Bwrdd lechyd yn gwneud y defnydd gorau posibl o adborth cleifion a staff i hysbysu cynlluniau ar gyfer gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.
- 71 Caiff y canfyddiadau sydd wedi ein harwain i'r casgliad hwn eu crynhoi yn **Arddangosyn 9**.

Arddangosyn 9: dull o fonitro effaith llwybrau amgen ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.

Cwestiwn archwilio	Ydy/Oes/ Nac ydy/Nac oes/ Yn rhannol	Canfyddiadau
A yw'r Bwrdd lechyd yn olrhain ac yn adrodd ar ddata i ddangos pa un a yw cleifion yn manteisio ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn briodol?	Ydy	Mae'r Bwrdd lechyd yn defnyddio dangosfwrdd tactegol sy'n cynnwys gwybodaeth fyw yn ymwneud â galw ar safle Treforys. Mae'r dangosfwrdd hwn yn rhoi data gwasanaeth byw i dimau gweithredu i'w cynorthwyo i ymateb yn briodol. Dywedodd rhai a gyfwelwyd bod ganddynt sawl dadansoddwr a thîm gwybodeg yn gweithio ar wahanol brosiectau i helpu i ddeall effaith newidiadau i wasanaethau a pha un a ydynt yn

Cwestiwn archwilio	Ydy/Oes/ Nac ydy/Nac oes/ Yn rhannol	Canfyddiadau
		arallgyfeirio cleifion yn llwyddiannus o'r drws ffrynt.
A yw adborth cleifion rheolaidd yn cael ei geisio a'i ddefnyddio i hysbysu a gwella cynlluniau?	Yn rhannol	Rhan o feini prawf isgyfeirio'r Bwrdd Iechyd¹¹ ar gyfer symud o ymyrraeth wedi'i thargedu ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng yw ystyried adborth cleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn casglu adborth cleifion drwy CIVICA¹², gwybodaeth cwynion, digwyddiadau clinigol a sylwadau sy'n cael eu gadael ar ei negeseuon cyfryngau cymdeithasol. Nid yw'n eglur, fodd bynnag, ar ba gam ar daith claf trwy ofal brys a gofal mewn argyfwng y mae'n cael ei holi am ei brofiad. Nid yw'n eglur chwaith sut mae adborth yn cael ei ddefnyddio i hysbysu a gwella cynlluniau (Argymhelliad 6).
A oes adborth staff rheolaidd ar effaith newidiadau i wasanaethau ac i nodi gwersi a'u rhoi ar waith?	Nac oes	Ni wnaeth ein hadolygiad ganfod unrhyw dystiolaeth o'r Bwrdd Iechyd yn casglu adborth staff yn rhagweithiol. Dangosodd cyfweiliadau ag amrywiaeth o staff angen am fecanweithiau mwy rheolaidd ar gyfer adborth, fel rhwng gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng a gwasanaethau gofal sylfaenol, i sicrhau bod newidiadau i wasanaethau yn gweithio fel y bwriadwyd (Argymhelliad 7).

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Trosolwg a chraffu

¹¹ Ym mis Ionawr 2024, uwchgyfeiriwyd y Bwrdd Iechyd o dan fframwaith uwchgyfeirio a throsolwg GIG Cymru ar draws tri maes penodol o'i fusnes, gan gynnwys uwchgyfeiriad i Ymyrraeth wedi'i Thargedu (Lefel 4) ar gyfer perfformiad a chanlyniadau. Platform meddalwedd a ddyluniwyd i fesur adborth cleifion mewn sefydliadau gofal iechyd yw CIVICA.

- 72 Canfuwyd gennym fod monitro a throsolwg rheolaidd o berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng ar lefel pwyllgorau a'r Bwrdd, ond ceir lle i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru chwarae mwy o ran ac mae trosolwg o'r defnydd o ddyraniadau ariannol ychwanegol ar gyfer gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn wael.
- 73 Caiff y canfyddiadau sydd wedi ein harwain i'r casgliad hwn eu crynhoi yn **Arddangosyn 10**.

Arddangosyn 10: dull o oruchwyllo a chraffu ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.

Cwestiwn archwilio	Oes/ Nac oes/ Yn rhannol	Canfyddiadau
A oes trosolwg effeithiol o berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng yn weithredol, gan gynnwys craffu a sicrwydd ar effeithiolrwydd cynlluniau a chatau sy'n cael eu cymryd i fodloni galw yn well?	Oes	Ceir sawl grŵp sy'n gweithio ar y cyd i ddarparu trosolwg rheolaidd o ofal brys a gofal mewn argyfwng. Ar sail weithredol, mae'r Bwrdd lechyd yn cynnal uwchgynadleddau, sgrymiau a galwadau cenedlaethol dyddiol i reoli perfformiad mewn amser real. Ceir cyfarfodydd Grŵp Cyflawni Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng wythnosol hefyd, sy'n rheoli materion gweithredu brys a chyfarfodydd ymyrraeth wedi'i thargedu bob pythefnos. Ar lefel fwy strategol, mae gan y Bwrdd lechyd Fwrdd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Board Chwe Nod sydd â'r nod o gefnogi a gweithredu cynlluniau a pherfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae'r Bwrdd hwn yn cyfarfod yn fisol ac fe'i cadeirir gan y Prif Swyddog Gweithredu.
A oes trosolwg effeithiol o berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng ar lefel pwyllgorau a'r bwrdd, gan gynnwys craffu a sicrwydd ar effeithiolrwydd cynlluniau a chatau	Oes	Ceir trosolwg rheolaidd o berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau. Mae'r Bwrdd yn derbyn Adroddiad Perfformiad Integredig misol y Bwrdd lechyd, sy'n cynnwys metrigau yn ymwneud â gofal brys a gofal mewn argyfwng. Cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd, mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn craffu ar yr Adroddiad Perfformiad Integredig, ynghyd ag adroddiad tri misol ar ofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae'r

Cwestiwn archwilio	Oes/ Nac oes/ Yn rhannol	Canfyddiadau
sy'n cael eu cymryd i fodloni galw yn well?		adroddiad hwn yn dangos gweithgarwch a pherfformiad gofal brys, gan gynnwys cynnydd yn erbyn y safonau gofal brys a gofal mewn argyfwng.
A oes trefniadau ar waith ar gyfer monitro a throsolwg o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd buddsoddiad mewn prosiectau gan Lywodraeth Cymru?	Nac oes	Mae angen craffu gwell ar gyllid ac i dderbyn sicrwydd bod y Bwrdd lechyd yn gwario arian a ddyrennir ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng yn effeithiol. Mae datganiadau monitro misol y GIG ar gyfer mis 12 2024-25 yn dangos bod y Bwrdd lechyd wedi gwario'r arian Chwe Nod o £4.9 miliwn â gorwariant o £210,000, yn ogystal â'i ddyraniad llawn o arian y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac Ymhellach, Yn Gyflymach. Fodd bynnag, ni adroddwyd y gwariant hwn o gwbl mewn adroddiadau i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad na'r Bwrdd i roi sicrwydd bod yr arian wedi cael ei ddefnyddio'n effeithiol (Argymhelliad 8).

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Atodiad 1

Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 11** yn nodi'r dulliau archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Cyfyngir ein tystiolaeth i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

Arddangosyn 11: dulliau archwilio

Elfen y dull archwilio	Disgrifiad
Dogfennau	Adolygwyd amrywiaeth o ddogfennau gennym, gan gynnwys: • Cynllun Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (Adfer) • Cynllun Tymor Canolig Integredig a Chynllun Blynnyddol • Cynllun Gweithredu Comisiynu Integredig • Cynllun y Rhaglen Chwe Nod ac adroddiadau cynnydd, gan gynnwys cyflwyniadau i Lywodraeth Cymru • Adroddiadau perfformiad ar ofal brys a gofal mewn argyfwng i'r Bwrdd a phwyllgorau • Adroddiadau gwerthuso a fwriedir ar gyfer mentrau sy'n rheoli galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng yn briodol; a • Chylch gorchwyl y Bwrdd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (neu Fwrdd y Chwe Nod), agendâu ar gyfer y llynedd a phapurau sy'n berthnasol i reoli galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng yn briodol
Cyfweliadau	Cyfwelwyd y canlynol gennym: • Y Prif Swyddog Gweithredu • Yr Arweinydd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng • Cyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaeth ar gyfer Gofal Sylfaenol • Yr Arweinydd Môn Anafiadau, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot • Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaeth Treforys • Pennaeth Gwasanaeth Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar gyfer Rhanbarth y Bwrdd Iechyd • Arweinydd Llais Lleol
Trafodaethau grŵp	Cynhaliwyd trafodaethau grŵp gennym gyda'r canlynol: • Arweinydd clwstwr meddygon teulu ac arweinwyr meddygon teulu y tu allan i oriau arferol

Elfen y dull archwilio	Disgrifiad
Arsylwadau	Cynhaliwyd ymweliad safle gennym â safle Treforys, gan ymweld â'r adran achosion brys, Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, mannau aros am ofal brys ac roeddem yn bresennol yng nghyfarfod dyddiol safle Treforys.
Dadansoddi data	Dadansoddwyd data gennym yn ymwneud â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan ddefnyddio'r ffynonellau canlynol: • Dangosyddion y Gwasanaethau Ambiwylans; • Dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru; • StatsCymru; • Data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â gwasanaethau y tu allan i oriau arferol meddygon teulu; a • Datganiadau Monitro Misol.
Adolygiadau o wefannau a phractisau	Adolygwyd gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ddefnyddio gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Adolygwyd sampl of 11 o wefannau a pheiriannau ateb meddygfeydd teulu, a sampl o 15 o wefannau a pheiriannau ateb deintyddol gennym.

Cyflawnwyd ein holl waith archwilio yn unol â safonau archwilio Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Atodiad 2

Meini prawf archwilio

Mae **Arddangosyn 12** yn nodi'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn.

Arddangosyn 12: meini prawf archwilio

Cwestiynau archwilio	Meini prawf archwilio
A oes gan y Bwrdd lechyd gynlluniau cadarn ar waith i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng?	
A yw cynlluniau yn ceisio gwella'r broses o reoli'r galw drwy newidiadau i'r broses o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng?	- Mae strategaethau a/neu gynlluniau sy'n ymwneud â gofal brys a gofal mewn argyfwng: - yn seiliedig ar wybodaeth gyfoethog a chyfredol, wedi eu hysbysu gan ddata ar alw am ofal brys a gofal mewn argyfwng (yn y gorffennol a'r dyfodol), gan gynnwys brigau mewn gweithgarwch ar amseroedd/diwrnodau a misoedd penodol, demograffeg, a chyflyrau cleifion. - yn nodi ac yn ceisio mynd i'r afael â risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. - yn cyd-fynd â gofynion Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Llywodraeth Cymru i reoli galw yn well. - yn cynnwys gwybodaeth ysgrifenedig am lwybrau clinigol amgen, gan gynnwys sut a phryd y dylid eu defnyddio.
A yw cynlluniau yn nodi'r lefelau cyfresol a	Mae strategaethau a/neu gynlluniau yn rhoi manylion:

Cwestiynau archwilio	Meini prawf archwilio
gofynnol adnoddau a staffio i gyflawni uchelgeisiau?	– y gofynion adnoddau a chyllid a nodwyd i gefnogi unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth o wasanaethau sydd wedi'i chynnwys yn y strategaeth/cynllun. – y gweithlu a'r sgiliau sydd eu hangen i fodloni galw, gan gynnwys ar gyfer newidiadau i fodelau darpari fel adegau brig y gaeaf. Mae'r cynllun yn eglur am yr adnoddau sydd eu hangen o ran sgiliau/staff clinigol ac anghlinigol.
A oes trefniadau ar waith i annog a galluogi pobl i gael gafael ar y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf, ac a yw'r rhain yn gweithio?	
A yw'r Bwrdd lechyd yn cyfeirio'r cyhoedd at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn effeithiol fel eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau yn briodol?	• Mae'r Bwrdd lechyd yn darparu gwybodaeth eglur i'r cyhoedd am y gwasanaethau sydd ar gael a dewisiadau eraill i adrannau achosion brys drwy wahanol ffyrdd – gwefannau, atebwyr galwadau, poster/taflenni, hysbysebion, gwefannau a llinellau ffôn meddygon teulu/deintyddion, cyfryngau cymdeithasol, fideos ac ati. • Mae'r strategaethau a/neu'r cynlluniau cyfathrebu cyhoeddus yn cyd-fynd â gofynion nodau 2 a 3 Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Llywodraeth Cymru (y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf). • Ceir tystiolaeth i awgrymu bod gan gleifion ddealltwriaeth dda o sut i gael gafael ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n briodol i'w hanghenion.
A oes gan staff wybodaeth dda am yr amrywiaeth o wasanaethau eraill sydd ar gael i'w cleifion ac ar be amseroedd y maent ar gael, a mynediad at y gwasanaethau hyn?	• Ceir ymgysylltiad rhwng Byrddau lechyd a chlystyrau meddygon teulu / deintyddion / parafeddygon / fferyllwyr ynghylch llwybrau amgen sydd ar waith a dyfodol gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae gwybodaeth am y llwybrau a'r gwasanaethau hyn yn hygyrch i staff. • Gall staff gyfeirio yn uniongyrchol / arallgyfeirio cleifion i leoliadau sy'n fwy priodol ar gyfer eu hanghenion, gan gynnwys Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys a Chanolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod).

Cwestiynau archwilio	Meini prawf archwilio
A oes tystiolaeth bod newidiadau i'r ddarpariaeth o wasanaethau yn arwain at reoli galw yn well?	- Mae atgyfeiriadau i fodelau gwasanaeth newydd yn cyd-fynd ag uchelgeisiau llawlyfr polisi'r chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng. - Gall Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gyfeirio o leiaf 4% o'r achosion at Ofal Argyfwng yr Un Diwrnod. - Mae galwadau 111 yn cael eu hateb yn gyflym ac mae cyfraddau rhoi'r ffôn i lawr yn isel. - Mae amseroedd ymateb ambiwlansys i achosion brys, oediadau cyn trosglwyddo cleifion o ambiwlansys ac arosiadau mewn Adrannau Achosion Brys ac Unedau Mân Anafiadau yn gwella. - Mae data yn dangos gostyngiad i niferoedd y cleifion sy'n mynd i Adrannau Achosion Brys oherwydd anhwylderau llai aciwt / mân anhwylderau. - Mae data yn dangos bod amrywiaeth dda o apwyntiadau meddygon teulu ar gael. - Mae data yn dangos bod galwadau sy'n cael eu harallgyfeirio rhwng 999 ac 111/Galw Iechyd Cymru yn briodol, â lefelau isel o alwadau sy'n cael eu harallgyfeirio yn ôl niferoedd isel o gyfraddau ailgysylltu.
A yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud digon i fonitro perfformiad ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng ac yn cymhwyso gwersi a ddysgir i wella'r gwasanaethau ymhellach?	
A yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro effeithiolrwydd llwybrau clinigol eraill, gan gynnwys drwy geisio adborth gan staff a defnyddwyr gwasanaethau?	- Mae'r Bwrdd Iechyd yn olrhain ac yn adrodd data i ddangos pa un a yw cleifion yn cael gafael ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn briodol. - Gall y Bwrdd Iechyd ddangos ei fod yn gofyn am adborth cleifion yn rheolaidd ac yn ei ddefnyddio i hysbysu a gwella cynlluniau. - Gofynnir am adborth rheolaidd gan wahanol staff ar effaith newidiadau i wasanaethau a chynlluniau peilot i nodi gwersi a'u rhoi ar waith.
A oes gwaith craffu a sicrwydd effeithiol o ran darparu cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal	Ceir goruchwyliaeth effeithiol o berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng yn weithredol ac ar lefel pwyllgorau a'r bwrdd. Mae hyn yn cynnwys craffu a sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y cynlluniau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fodloni galw yn well. Mae gwaith goruchwyllo a chraffu yn cael ei hysbysu gan feincnodi cymharol a dysgu gan gyrff eraill pan fo hynny'n briodol.

Cwestiynau archwilio	Meini prawf archwilio
mewn argyfwng a llwybrau clinigol amgen?	Mae trefniadau ar waith ar gyfer monitro a goruchwyllo darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd buddsoddiadau mewn prosiectau gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cadarnhau gwerth am arian a pha wahaniaeth y mae'r prosiect wedi ei wneud.

Atodiad 3

Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

Mae **Arddangosyn 13** yn nodi ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion a wnaed oherwydd yr archwiliad hwn.

Arddangosyn 13: ymateb y rheolwyr

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Rheoli risg mewn cynlluniau A1 I gryfhau gwaith rheoli risg, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan yr holl risgiau a nodir mewn cynlluniau gofal brys a gofal mewn argyfwng unigolion sy'n gyfrifol amdanynt a bod camau lliniaru yn cael eu hadolygu'n rheolaidd (Arddangosyn 2).	Mae gwaith ar y gweill i gryfhau a chysoni gwaith rheoli risg ar draws y llwybr gofal brys a gofal mewn argyfwng, a bu gwelliannau sylweddol yn ddiweddar i'r proffil risg gofal brys a gofal mewn argyfwng cyffredinol gan fod amseroedd trosglwyddo cleifion/ ambiwlansys a mynediad cleifion wedi gwella'n sylweddol. Cydnabyddir bod angen gwneud gwaith pellach o ran cysoni risgiau ar draws y sefydliad h.y. ar draws y llwybr gofal brys a gofal mewn argyfwng cyfan beth bynnag fo'r Grŵp Gwasanaeth. Yn sgil hynny, mae pob risg gofal brys a gofal mewn argyfwng (gweithredu) perthnasol o'r fath yn cael ei hadolygu ochr yn ochr â Bwrdd y 6 Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng i sicrhau nad oes unrhyw	Hydref 2025	Prif Swyddog Gweithredu

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	ailadrodd ac y gellir cyfuno risgiau pan fo'n briodol. Ar ôl cwblhau'r adolygiad hwn, gellir neilltuo unigolion sy'n gyfrifol am gamau cysylltiedig sydd ar waith i liniaru a chynllunio ymhellach. Ceir adolygiadau o risgiau ar draws fforymau amrywiol ar hyn o bryd, ond mae triongli'r holl risgiau gofal brys a gofal mewn argyfwng perthnasol yn eitem agenda reolaidd ar y Bwrdd gofal brys a gofal mewn argyfwng/y 6 Nod gan ganiatáu llwybr eglur rhwng risg (a sgôr risg cysylltiedig), camau lliniaru, y sawl sy'n gyfrifol am y risg ac amserlen i wella.		
Ariannu'r Rhaglen Chwe Nod A2 I gefnogi'r ddarpariaeth barhaus o fentrau yn gysylltiedig â'r Chwe Nod, mae angen i'r Bwrdd lechyd egluro a chadarnhau'r trefniadau ariannu ar gyfer cynlluniau y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Dylai cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod hefyd nodi unrhyw anghenion ariannu y tu hwnt i'r dyraniad blynyddol presennol (Arddangosyn 2).	Ceir cyfathrebu parhaus rhwng y Bwrdd lechyd a Thîm y Chwe Nod (o fewn Perfformiad a Sicrwydd GIG Cymru) o ran parhad menter genedlaethol y Chwe Nod. Yng nghynllun blynyddol 25/ 26 y 6 Nod a chadarnhawyd cyllid cysylltiedig. Hefyd, bu cyfathrebu cadarnhaol hyd yma ynghylch parhau menter genedlaethol â'r nod o wella Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng cyffredinol, ond nid yw parhad cyllid/cynlluniau wedi cael ei gadarnhau eto ar ôl blwyddyn ariannol 25/ 26. Yn y dyfodol, cydnabyddir y bydd angen defnyddio cyllid Chwe Nod mewn ffordd 'paratoi pwmp' i brofi dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau a bydd angen i'r Bwrdd lechyd ddyrannu cyllid 'craidd' os	Ionawr 2026	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	bydd y gwasanaeth dan sylw yn dymuno cael ei barhau fel 'Busnes fel Arfer' ac o'r herwydd efallai y bydd angen cynnal adolygiadau rheolaidd o wasanaethau y gallai fod angen eu dadfuddsoddi.		
Cynllun cyfathrebu A3 Yn ei gynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai'r Bwrdd lechyd egluro pa gamau y bydd yn eu cymryd i gyfathrebu sut y bydd gwasanaethau yn cael eu defnyddio gan staff a'r cyhoedd. Dylai hyn sicrhau bod negeseuon cyson ac eglur ar gyfer cael gafael ar ofal brys a gofal mewn argyfwng priodol a lleihau pwysau ar y system (Paragraff 21).	Mae cyfathrebiad eisoes wedi'i ddatblygu/ ar y gweill gyda'r cyhoedd a staff ynghylch cael gafael ar y gofal iawn y tro cyntaf a gwelliannau i wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng sydd naill ai yn yr arfaeth neu ar y gweill. Mae hyn yn cynnwys cylchlythyrau mewnol, mentrau fel 'ail-osod y cloc' a fforymau cyfathrebu (fel 'Holi Abi' - sesiwn agored i staff gyfathrebu yn uniongyrchol â'r Prif Swyddog Gweithredol) a'r Fforwm Agored Adran Achosion Brys staff lle caiff materion gofal brys a gofal mewn argyfwng eu cymdeithasu. Bydd yr holl weithgarwch cyfathrebu gofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn gywir/ yn gyfredol ar gyfer y gynulleidfa. Lle ceir bylchau neu fod angen addasiadau, bydd y rhain yn cael eu datrys yn brydlon.	Tachwedd 2025 (ar gyfer adolygiad a dadansoddi bylchau)	Cyfarwyddwr Gwybodaeth, Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Cyfeirio cleifion at y gwasanaethau cywir A4 I roi mwy o eglurder i gleifion, dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod meddygfeydd teulu a phractisau deintyddol yn darparu gwybodaeth eglur a hygyrch am wasanaethau	Bydd adolygiad o gyfathrebu/ gwybodaeth bresennol a ddarperir mewn meddygfeydd teulu practisau deintyddol ynghylch gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael ei gynnal ar draws y rhanbarth. Lle mae bylchau yn cael eu nodi, bydd gwybodaeth gyfredol yn cael ei darparu i'w	Ionawr 2026	Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu/ Cyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaeth

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
gofal brys a gofal mewn argyfwng ar eu gwefannau (Paragraff 26).	dosbarthu drwy'r meddygfeydd teulu a'r practisau deintyddol dan sylw. Bydd hyn yn cynorthwyo i gyfeirio cleifion yn y gymuned at y lle iawn, y tro cyntaf. Mae gwaith sydd eisoes ar y gwell o ran cyfeirio / ailgyfeirio cleifion yn cynnwys datblygu Un Pwynt Mynediad gofal brys a gofal mewn argyfwng ar gyfer brysbennu cyn yr ysbyty. Ceir cynlluniau cysylltiedig i roi menter 'tocyn teithio' ar waith gan sicrhau bod adolygiadau o gleifion na ystyrir yn achosion brys wir yn cael eu gwirio o ran pa un a yw eu cludo i'r ysbyty yn briodol neu a yw dull amgen o driniaeth oddi wrth leoliad aciwt yn fwy priodol.		Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Therapiau
Monitro cydymffurfiad â chanllawiau atgyfeirio Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod cenedlaethol A5 I gael sicrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn dilyn y canllawiau atgyfeirio Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod cenedlaethol, dylai gynnal archwiliad o'i ddata Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn erbyn y meini prawf ac adrodd ar y canlyniadau i bwyllgor neu fforwm priodol (Paragraff 49).	Mae gwasanaethau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd yn rhan o ddatblygiad Un Pwynt Mynediad ar gyfer gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Hefyd, bwriedir cynnal adolygiad o ddata yn rhan o'r rhaglen 'Profion newid' ar safle Ysbyty Treforys. Yn rhan o'r gweithgarwch hwn, bydd adolygiad o ddata Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn erbyn canllawiau atgyfeirio cenedlaethol yn cael ei gwblhau – bydd hwn yn nodi meysydd o arfer da wedyn neu feysydd i'w gwella, yn wir.	Tachwedd 2025	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cynorthwyol (Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng)/ Sue Moore – Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaeth: Ysbyty Treforys
Gwella adborth staff a chleifion	Mae adborth rheolaidd yn cael ei gasglu am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng fel y rhai trwy fenter 'lleisiau o adrannau damweiniau ac	Rhagfyr 2025	Cyfarwyddwr Gwybodaeth,

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A6 I sicrhau bod cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael eu hysbysu gan brofiad cleifion, dylai'r Bwrdd lechyd ddangos yn eglur o fewn y naratif sut y mae wedi ystyried adborth cleifion (Arddangosyn 9). A7 I wella'r ddealltwriaeth o sut mae gwasanaethau yn gweithio, ac i nodi gwendidau neu ddysgu posibl o newidiadau diweddar, dylai'r Bwrdd lechyd gyflwyno mecanweithiau rheolaidd ar gyfer adborth staff ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Dylai hyn gynnwys adborth gan bartneriaid allweddol gan gynnwys staff gofal sylfaenol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Arddangosyn 9).	achosion brys' sy'n casglu adborth gan gleifion ac yn rhannu â chydweithwyr gofal brys a gofal mewn argyfwng i gynorthwyo gwaith ail-ddylunio/ gwella gwasanaethau. Bu sesiynau adborth agored rheolaidd gyda staff am y 'Profion newid' diweddar. Mae hyn yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaeth a'i gefnogi gan staff gweithredu allweddol. Hefyd, ceir 'Fforwm Agored Adrannau Achosion Brys' sy'n casglu adborth gan staff am wasanaeth/ profiadau adrannau achosion bryd. Hefyd, i sicrhau bod adborth cleifion yn cael ei ystyried mewn cynlluniau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn y dyfodol, bydd adolygiad o Grwpiau Cyfeirio Clinigol/ adborth a dderbyniwyd hyd yma/ cwynion ac ati yn cael ei gynnal.		Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Adrodd ar wario cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng A8 I gynyddu tryloywder a chryfhau sicrwydd bod arian a ddyrennir i ofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael ei wario'n ddoeth, dylai'r Bwrdd lechyd gynnwys gwybodaeth am ei ddefnydd o gyllid ychwanegol mewn adroddiadau cyllid rheolaidd i'r	Cydnabyddir bod angen golwg cyffredinol ar yr holl gyllid a briodolir i'r llwybr gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae angen hyn i nodi bylchau posibl yn y ddarpariaeth a lle gallai cyllid o bosibl gael ei ail-ddyrannu i rwystrau ar hyd y llwybr. Ar sail hynny, bydd adolygiad cyffredinol o'r holl gyllid a briodolir i'r llwybr gofal brys a gofal mewn argyfwng (yn cwrmpasu cyllid craidd y Bwrdd lechyd, y Chwe Nod, Ymhellach, Yn Gyflymach ac ati) yn cael ei gynnal	Hydref 2025	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cynorthwyol (Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng)

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Dylai hyn gynnwys defnyddio arian y Chwe Nod, Ymhellach, Yn Gyflymach a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (Arddangosyn 10).	yn rhan o'r fenter datrys problemau Adfer a Chynaliadwyedd. Bydd yr adolygiad thematig hwn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad i gynorthwyo i wneud penderfyniadau am le mae angen cyllid ychwanegol i wella perfformiad neu lle mae angen ail-ddyrannu cyllid.		

Ffynhonnell: Archwilio Cymru



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.